

## Sul y Beibl

### Darlleniad 1: Eseia 55: 6-11 Darlleniad 2: Rhufeiniaid 15: 4-13

---

---

O! Arglwydd ein Duw, sydd mor agos atom, diolchwn i ti am wahoddiad dy Air i alw arnat mewn gweddi. Ond inni dy geisio di, fe allwn dy gael, oherwydd yr wyt ti'n ein ceisio ni eisoes ac yn galw arnom. Yng nghanol tryblith ein hoes, diolch i ti am ein sicrhau nad ydym ar drugaredd ein syniadau a'n meddyliau ni ein hunain. Fe'n rhybuddiaist nad yr un yw dy feddyliau di â'n meddyliau ni, na'th ffyrdd di â'n ffyrdd ni. Agor ein llygaid i weld dy ffordd di, a'n calonau i ymglywed â'th feddyliau di, yn Iesu Grist.

Gwared ni rhag ymhyfrydu yng ngeiriau'r ysgrythur yn unig. Pâr inni gofio mai tystiolaethu am dy annwyl Fab, Iesu Grist, y mae'r ysgrythurau, a'th fod yn ein gwahodd i ddod ato ef i gael bywyd yn nerth yr Ysbryd Glân. Ynot ti, O! Drindod Sanctaidd, y gorwedd ein hunig obaith.

Sylfaenwn ein gobaith ar sail dy gyfamod â'th bobl yn y gorffennol. Fe fuost ti'n Dduw iddynt hwy, a hwythau'n bobl i ti o genhedlaeth i genhedlaeth. Mawrygwn dy enw am y rhai a groniclodd stori dy berthynas di â hwy yn yr ysgrythurau. Er iddo fentro allan o'i filltir sgwâr, ni siomwyd Abraham am roi ei ffydd ynot ti. Fe fendithiaist ti ef er mwyn iddo yntau a'i blant ddwyn bendith i'r byd. Diolchwn i ti am y fendith fwyaf a welodd ein hil yn Iesu Grist ein Harglwydd. Trwyddo ef rhoddaist gychwyn newydd i hanes y ddynoliaeth. Er gwaethaf eu holl gyfeiliorni, fe dderbyniaist ti ein cyndeidiau yn ôl yn Iesu Grist. Cawsant brofiad ohono ef yn mynd i ganol yr anialwch i chwilio am y colledig a'u dwyn yn ôl i gymundeb â thi ac â'i gilydd.

O ddarllen am wyrth dy allu mawr i gymodi gelynion yn y gorffennol, trwy Iesu Grist, seiliwn ein gobaith arnat ti, ffynhonnell

gobaith, i'r dyfodol. Ymddiriedwn yn dy addewid na fydd dy Air yn dychwelyd atat heb ddwyn ffrwyth lawer. Diolchwn i ti am anogaeth yr ysgrythurau i ddal ein gfael yn ein gobaith yn wyneb pob tramgwydd a siom. Yng nghymdeithas dy Ysbryd Glân, galluoga ni i fod yn gytûn, yn ôl ewyllys Crist Iesu. Fel y derbyniodd ef ni, a ninnau'n bechaduriaid, cynorthwya ni i dderbyn ein gilydd, i ymhyfrydu yn amrywiaeth ein gilydd, sy'n dadlennu dy ogoniant di, O! Dduw. Wedi'n hysbrydoli â'th Ysbryd Glân, gad inni dy ogoneddu di, O! Dad, a thi, O! Fab, yn unfryd ac yn unllais. Pâr i'n cymundeb â'n gilydd fod yn ddrych o gymundeb y Tri yn Un ac yn rhagflas o'th addewid yn dy Air y gwelir yr holl genhedloedd a'r holl bobloedd yn dyblu'u mawl yn un symffoni fawr, nes bod y greadigaeth gyfan yn adleisio dy gynghanedd ddwyfol di. Hyn yw'r dyfodol gwynfydedig a addewaist i ni yn dy Air sy'n cadarnhau dy addewidion i'r tadau.

Bydded i ti, O! Dduw, ffynhonnell gobaith, ein llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth inni ymarfer ein ffydd yng Nghrist, nes ein bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. I Dduw y byddo'r mawl am ei Air creadigol ac am amlygu'r Gair hwnnw yng Nghrist Iesu a'i sibrawd yn ein calonnau ni trwy'r Ysbryd Glân. Amen.

*Saunders Davies*